**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth – Cyllideb Ddrafft 2018-19**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y cynigion Amgylchedd a Materion Gwledig (MEG) a amlinellwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19, a gyhoeddwyd ar 24 Hydref. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor

## Cefndir

2. Mae cyllideb ddrafft 2018-19 yn darparu cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddiad refeniw a chynllun tair blynedd ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Mae’r tablau isod yn rhoi trosolwg o Brif Grŵp Gwariant (MEG) yr Amgylchedd a Materion Gwledig fel y’i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19.

3. Crynhoir ffigurau’r gyllideb ddrafft fel a ganlyn:

| **MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig** | | | | **£m** |
|---|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r MEG** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 £m** | **Cyllideb Ddrafft 2018-19 ar gyfer Cynlluniau Newydd £m** | **Cyllideb Ddrafft 2019-20 ar gyfer Cynlluniau Newydd £m** | **Cyllideb Ddrafft 2020-21ar gyfer Cynlluniau Newydd £m** |
| DEL adnoddau | 282.424 | 243.034 | 234.475 | |
| DEL cyfalaf | 101.731 | 100.634 | 87.781 | 79.521 |
| **Cyfanswm DEL** | **384.155** | **343.668** | **322.256** | **79.521** |
| AME adnoddau | 2.400 | 2.400 | 2.400 | |
| AME cyfalaf | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| **Cyfanswm AME** | **2.400** | **2.400** | **2.400** | |
| **Cyfanswm – MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig** | **386.555** | **346.068** | **324.656** | |

4. Er mwyn galluogi cymharu tebyg at ei debyg o gyllidebau 2017-18 gyda chyllidebau drafft 2018-19, bydd y tabl Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) yn rhoi manylion am yr holl symudiadau o un MEG i’r llall a newidiadau o fewn y MEG.

## Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 a 2019-20

5. Yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19, mae'r gyllideb Adnoddau Amgylchedd a Materion Gwledig (gan gynnwys heb fod yn arian parod) wedi gostwng £39.39 miliwn o gyllidebau gwaelodlin adnoddau 2017-18 a £8.559 miliwn

arall ar gyfer y gyllideb ddrafft ddangosol ar gyfer 2019-20. Mae hyn yn cynnwys gostyngiadau ar gyfer yr arbedion sy'n ofynnol fel rhan o'r setliad cyllideb ar gam 1 proses y gyllideb, cytunwyd ar gyllid ychwanegol gyda Phlaid Cymru, a throsglwyddo rheolaidd o £35 miliwn o'r gyllideb Wastraff i Gyllideb MEG Llywodraeth Leol.

6. Dangosir y newidiadau refeniw yn ôl math isod yn y tabl.

| Newidiadau Refeniw | 2017-18 £m | Newid £m | 2018-19 £m | Newid £m | 2019-20 £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Agoriadol | 282.424 | | | | |
| Arbedion heb eu Gwarchod | | (7.093) | | (14.198) | |
| Grant Penodol i'r MEG llywodraeth leol | | (35.000) | | | |
| Gostyngiadau Grantiau Penodol | | (3.000) | | (2.945) | |
| Cyllid Llifogydd Arloesol | | | | 2.400 | |
| Cyllid Gwastraff wedi'i Ddiogelu | | 0.403 | | 4.684 | |
| Addasiad Buddsoddi i Arbed | | 1.300 | | | |
| Treth Gwarediadau Tirlenwi | | 1.500 | | | |
| Plaid Cymru – Grant i Ffermwyr Ifanc | | 2.000 | | 2.000 | |
| Plaid Cyrmu – Cynllun Dychwelyd | | 0.500 | | (0.500) | |
| **Cyllideb Gwaelodlin wrth Gau** | **282.424** | **(39.390)** | **243.034** | **(8.559)** | **234.475** |

7. Mae'r arbedion refeniw a ddychwelwyd i'r Cronfeydd wrth gefn wedi'u dosrannu i'r cyllidebau rhaglen canlynol a ddangosir yn y tabl isod.

| Arbedion heb eu Gwarchod | BEL | Arbedion 2018/19 £m | Arbedion 2019/20 £m |
|---|---|---|---|
| Datblygu Cynaliadwy | 2810 | (0.250) | |
| Defnyddio Ynni'n Effeithlon | 3771 | (1.000) | (0.400) |
| Gwastraff | 2190 | (1.516) | (3.111) |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 2451 | (3.136) | (2.980) |
| Parciau Cenedlaethol | 2490 | (0.498) | (0.473) |
| Cynllun Datblygu Gwledig | 2885 | (0.222) | (3.605) |
| Daliadau Plwyf Cymunedol | 2861 | (0.471) | (0.429) |
| Cynllunio | 2250 | | (0.200) |
| Taliadau Lladd TB | 2272 | | (3.000) |
| | | | |
| **Cyfanswm yr Arbedion i Gronfeydd Wrth Gefn** | | **(7.093)** | **(14.198)** |

8. Fel rhan o'm hadolygiad cyllidebu, rwyf wedi ailddyrannu a blaenoriaethu nifer o gyllidebau i sicrhau'r cydbwysedd cywir o fuddsoddiad ar draws fy mhortffolio i gefnogi blaenoriaethau'r Strategaeth Genedlaethol "*Ffyniant i Bawb*". Manylir ar y rhain isod. Mae hyn yn cynnwys dyrannu cyllid ychwanegol i Forol a Physgodfeydd, a Datgarboneiddio.

| **Ad-drefnu cyllidebau REFENIW o fewn y MEG (fesul BEL)** | **£m** |
|---|---|
| BEL 2816 Gweithredu ar Newid yn yr Hinsawdd | -1.289 |
| BEL 2885 Cymorth Technegol CDG | -0.500 |
| BEL 2824 Cyllid Cymorth Rheoli Amgylcheddol | -0.500 |
| | |
| BEL 3770 Datgarboneiddio ac Ynni Glân | 1.058 |
| BEL 2838 Cyflenwi Arloesol | 0.731 |
| BEL 2870 Morol a Physgodfeydd | 0.500 |

| **Ad-drefnu cyllidebau CYFALAF o fewn y MEG (fesul BEL)** | **£m** |
|---|---|
| BEL 1270 Tlodi Tanwydd (Trafodion Ariannol) | -1.180 |
| | |
| BEL 2809 Twf Gwyrdd (Trafodion Ariannol) | 1.180 |

**Cytundeb y Gyllideb**

9. Mae cytundeb y gyllideb gyda Phlaid Cymru yn cynnwys nifer o fesurau penodol.
   - £0.5 miliwn i brofi dichonoldeb cynllun dychwelyd blaendal ar gyfer gwydr a chaniau yn 2018-19;
   - £6 miliwn dros ddwy flynedd i sefydlu cynllun grant i ffermwyr ifanc.

10. Bydd y peilot £0.5 miliwn yn cael ei ddatblygu ar ôl cwblhau astudiaeth sy'n mynd rhagddi ar hyn o bryd sy'n ymchwilio i opsiynau i leihau, ailgylchu a lleihau taflu sbwriel gwastraff pecynnau bwyd a diod allweddol, gan gynnwys cynwysyddion diod. Bydd y peilot yn helpu i lywio arfarniad o'r dulliau, dichonoldeb, costau a manteision cyflwyno cynllun dychwelyd blaendal yng Nghymru ochr yn ochr â'r system casglu o gartrefi bresennol ar gyfer gwastraff pecynnau ailgylchadwy.

11. Mae swyddogion yn gweithio i sefydlu cynllun dechrau ffermwyr ifanc ar gyfer £6 miliwn dros ddwy flynedd a fydd yn helpu i ddatblygu ffermwyr ifanc a newydd i mewn i'r sector.

**Grantiau Penodol**

12. Mae'r Strategaeth Genedlaethol *Ffyniant i Bawb* yn amlygu pwysigrwydd canolbwyntio ar y ffordd y caiff ein hadnoddau eu darparu i roi pwyslais ar y meysydd y gallwn gael yr effaith fwyaf arnynt; gwella canlyniadau a

sicrhau y caiff gwasanaethau eu cyflenwi'n effeithiol ac yn ddi-dor. Fel rhan o'n proses gynllunio, rydym wedi edrych ar yr ystod o grantiau arbennig sy'n cael eu darparu ar draws Llywodraeth Cymru i lywodraeth leol a sut y gellir cyfuno'r rhain i gynyddu eu heffaith, gan leihau biwrocratiaeth a sicrhau gwell gwerth am arian a gwella canlyniadau i'r dinasyddion.

13. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaed yn ystod cylchoedd cyllido blaenorol i symleiddio'r broses gyllido – er enghraifft, roedd y grant refeniw amgylchedd sengl yn cyfuno nifer o ffrydiau cyllido amgylcheddol, gan gynnwys y grant rheoli gwastraff cynaliadwy.

14. Rydym yn cynyddu hyblygrwydd awdurdodau lleol ac yn helpu i leihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â chyllid grant wrth gyfuno mwy o grantiau yng ngrant cynnal refeniw llywodraeth leol a chyfuno rhai grantiau llai, gyda chymorth fframweithiau canlyniadau.

15. Yn unol â hyn, rwyf wedi cytuno ar drosglwyddiad MEG i MEG rheolaidd gwerth £35 miliwn o'r gyllideb Gwastraff mewn perthynas â throsglwyddo cyllid o Grant Refeniw Penodol yr Amgylchedd (awdurdod lleol) i'r Grant Cynnal Refeniw yn y MEG Llywodraeth Leol. Cafodd hyn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Rhaglen Gweinidogol Gwastraff sy'n cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol.

16. Yn ogystal â'r arbedion refeniw rheolaidd a'r symudiadau grant penodol, cytunwyd hefyd y dylai 10% o Grantiau Penodol i awdurdodau lleol gael eu hailddyrannu i liniaru gostyngiadau i gyllid craidd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Byddai'r trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn a 5% i'w ryddhau yn ystod 2018-19 gan gynyddu i 10% erbyn 2019-20. Mae ailddyrannu tua £6 miliwn o'r Grant Refeniw Penodol yr Amgylchedd yn ogystal â'r £35 miliwn i'w drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, wedi arwain at y grant amgylchedd yn lleihau i £19 miliwn fel y nodir isod.

- Grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd 2017-18 £ 60 miliwn
- Ailddyrannu 5% yn 2018-19 £ -3 miliwn
- Ailddyrannu 5% arall yn 2019-20 £ -3 miliwn
- Trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw £-35 miliwn
- Balans y Grant Refeniw Penodol £ 19 miliwn

**Dyraniadau Cyfalaf**

17. Dyrannodd Llywodraeth Cymru mwyafrif y cyllidebau cyfalaf ar ddechrau’r cyfnod cynllunio yn ystod 2017-18, gan ddarparu sicrwydd a hyblygrwydd hirdymor er mwyn rheoli buddsoddiad y Llywodraeth yn unol â’i blaenoriaethau.

18. Yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb bresennol, cafodd cyllid Cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2018-19 i 2020-21 ei ddyrannu o'r Cronfeydd wrth Gefn. Y cyfalaf ychwanegol oedd £14.5 miliwn ar gyfer 2018-19, £6 miliwn ar gyfer 2019-20 ac £1.6 miliwn ar gyfer 20-21 ac roedd yn cwmpasu'r

Cynllun Datblygu Gwledig £5.4 miliwn, Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd £7.5 miliwn, gwaith Coed Bont Evans £2.6 miliwn, a datblygu TGCh ar gyfer y Gronfa Ddata Unigol Amlrywogaeth £1.6 miliwn a'r Systemau Taliadau Gwledig ar ôl Brexit £5 miliwn, dros y tair blynedd.

| **Dyraniadau DEL Cyfalaf** | **BEL** | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Tlodi Tanwydd (Arbed a Nyth) | 1270 | 27.000 | 27.000 | 27.000 | 23.000 |
| Seilwaith Gwyrdd | Newydd | 3.612 | 3.205 | 3.289 | 7.975 |
| Twf Gwyrdd | 2809 | 9.000 | 8.180 | 2.000 | 4.000 |
| Rheoli Perygl Llifogydd | 2230 | 32.000 | 34.500 | 27.000 | 28.000 |
| Gwastraff | 2190 | 4.000 | 4.000 | 10.500 | 4.000 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 2451 | 3.654 | 3.254 | 2.654 | 1.695 |
| Tirwedd a hamdden awyr agored | 2490 | 1.000 | 0 | 0 | 0 |
| Rhif y Daliad (CPH) | 2861 | 0.570 | 0 | 0 | 0 |
| EID Cymru | 2862 | 0.320 | 0.995 | 1.067 | 0 |
| Deddf Tiroedd Comin | 2866 | 1.100 | 0.500 | 0.300 | 0.300 |
| Diwygio'r PAC | 2789 | 1.574 | 3.000 | 2.000 | 0 |
| Rhaglen Datblygu Gwledig | 2949 | 8.166 | 9.809 | 6.521 | 5.318 |
| Grant Busnes i Ffermydd | 2886 | 5.000 | 5.000 | 5.000 | 5.000 |
| Pysgodfeydd Ewropeaidd a Môr | 2830 | 0.235 | 0.391 | 0.450 | 0.233 |
| Gorfodi Morol | 2870 | 4.500 | 0.800 | 0 | 0 |
| **Cyllideb Cyfalaf Ddrafft 2017-18** | | **101.731** | **100.634** | **87.781** | **79.521** |

19. Lluniwyd proffil y cyllidebau cyfalaf i sicrhau'r canlynol:

- Mae'r rhaglen Nyth wedi'i chefnogi gyda £15 miliwn y flwyddyn i sicrhau cynaliadwyedd a gwerth am arian yn y Cynllun Tlodi Tanwydd hanfodol hwn.
- Mae'r cynllun Arbed 3, a ariennir gan yr UE, wedi cael dyraniad o £12 miliwn o arian cyfatebol domestig (£4 miliwn y flwyddyn), sy'n sicrhau mai cyfanswm gwerth y cynllun yw £34 miliwn dros dymor y Llywodraeth.
- Buddsoddiad o £8 miliwn mewn Cronfeydd Twf Gwyrdd gyda Chymorth Trafodion Ariannol pellach o £5 miliwn yn 18-19.
- Llinell sylfaen Gwastraff o £4 miliwn dros y pedair blynedd i ariannu'r Rhaglen Newid Gydweithredol a'r Rhaglen Caffael Gwastraff. Mae £6.5 miliwn yn ychwanegol yn 2019-20 ar gyfer Cronfa Buddsoddi Cyfalaf yr Economi Gylchol, sef strategaeth gwastraff hirdymor.
- Mae cyllidebau Cyfalaf Llifogydd wedi'u llunio i sicrhau digon o gyllid cyfalaf i gyllido'r ymrwymiadau rhaglen presennol a chyfalaf ar gyfer

costau dylunio a datblygu ar gyfer cynlluniau a fydd yn cael eu cyllido o dan y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol (CRMP) gwerth £150 miliwn, ac yn lleihau dim ond pan ddaw'r CRMP ar-lein o 19-20 ymlaen.

- Bydd y Seilwaith Gwyrdd hefyd yn cynnwys rhaglen Grant newydd yn ogystal â chyllid ar gyfer Llwybr yr Arfordir a rhaglen “LIFE” yr UE.
- Cyllid Cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig a Chronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yn unol â’r rhagolygon cyfredol.
- £5 miliwn y flwyddyn ychwanegol ar gyfer y Grant Busnes i Ffermydd er mwyn helpu Ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau.
- Datblygu'r Gofrestr Tir Comin ymhellach.
- Cyllid ar gyfer tair Llong Gorfodi Morol, prynu cerbydau Morol a Physgodfeydd newydd.

**Cyllidebau Ataliol**

20. Mae buddsoddi mewn rheoli perygl llifogydd, o ran ei natur, yn ataliol. Mae gwario arian refeniw ar waith cynnal a chadw yn lleihau'r risg o fethiant asedau ac felly'r angen am wario ataliol brys ar atgyweirio, cost asedau newydd, neu'r costau sy'n gysylltiedig â llifogydd, gan gynnwys difrod i eiddo a busnes, a'r posibilrwydd o golli bywydau.

21. Caiff Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) eu gwerthuso'n fanwl yn ôl egwyddorion Llyfr Gwyrdd y Trysorlys. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Rheoli Risg ddefnyddio Canllaw Gwerthuso, sydd wedi ei gymeradwyo gan y Trysorlys, wrth ddatblygu cynlluniau llifogydd. Mae hyn yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario ar weithgareddau sy'n rhoi'r budd mwyaf i'r gymdeithas yn y modd mwyaf effeithlon.

22. Mae swyddogion yn monitro cynnydd cynlluniau llifogydd trwy adroddiadau chwarterol ac ymweliadau â chynlluniau mawr. Mae CNC yn gyfrifol am fonitro eu cynlluniau eu hunain, er bod cyfarfodydd monitro rheolaidd rhwng CNC a Llywodraeth Cymru hefyd yn digwydd. Mae hawliadau terfynol yn cadarnhau gwybodaeth pan gwblheir cynllun gan gynnwys nifer yr eiddo sy'n elwa.

23. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gadw cofrestr o asedau. Mae CNC nawr yn crynhoi’r holl gofrestrau asedau hyn a rhai eu hunain i greu’r Gronfa Ddata Asedau Cenedlaethol a ddefnyddir i ddiweddaru mapiau risg llifogydd a llywio penderfyniadau cynllunio. Mae hefyd yn helpu i wireddu manteision cynlluniau a ariennir gan grantiau.

24. Y ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn y tymor hir yw trwy ddefnyddio ynni’n fwy effeithiol yn ein cartrefi. Trwy fuddsoddi mewn tlodi tanwydd, rydym yn cyfrannu at ddelio ag ystod o effeithiau negyddol gan gynnwys cyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag oerfel, marwolaethau dros y gaeaf, cyrhaeddiad addysgol plant a cholli ysgol a gwaith oherwydd salwch.

25. Yn amlwg, mae mynd i'r afael ag etifeddiaeth canlyniadau iechyd gwael yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu ffyrdd o fyw. Ymhlith dulliau eraill y Llywodraeth, mae darparu coridorau ar gyfer cerdded a beicio yn gam a brofwyd yn effeithiol i fynd i'r afael yn uniongyrchol â chyflyrau anadlol, gordewdra a phroblemau iechyd meddwl. Mae darparu seilwaith gwyrdd wedi'i amlygu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel un o'r mesurau mwyaf cost effeithiol y gall y Llywodraeth ei gymryd wrth wella canlyniadau iechyd.

26. Mae gwerthusiad parhaus o raglen Cartrefi Clyd Nyth yn cynnwys cyfarfodydd ffurfiol â darparwr y gwasanaeth i fonitro perfformiad misol a chloriannu perfformiad y contract ar sail holl Ddangosyddion Perfformiad ac Amcanion y Cynllun. Cynhelir cyfarfodydd chwarterol strategol hefyd. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gynhyrchu adroddiad blynyddol ar lwyddiant y cynllun i leihau nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi tanwydd a'i effaith ar leihau biliau tanwydd cartref ac allyriadau carbon.

27. Yn ychwanegol at hyn, mae fy swyddogion yn cydariannu'r prosiect Cysylltu Data Tlodi Tanwydd sy'n cysylltu data iechyd yn ddienw â data o'r cynllun Nyth i werthuso canlyniadau iechyd. Mae'r canfyddiadau diweddaraf wedi dangos effaith gadarnhaol glir ar iechyd yr aelwydydd hynny sydd wedi cael mesurau arbed ynni am ddim drwy'r cynllun Nyth, gyda gostyngiad yn eu defnydd o'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Bydd yr ymchwil yn awr yn edrych ar effeithiau iechyd hirdymor, effeithiau posibl ar gyrhaeddiad addysgol a chymariaethau â'r cynllun Arbed.

28. Cynhelir gwerthusiad hefyd o gynlluniau Cartrefi Clyd Arbed, sy'n cynnwys asesiad o’r manteision a’u gwerth am yr arian. Hefyd, un o ofynion cynllun Cartrefi Clyd yw mai dim ond y mesurau arbed ynni mwyaf cost-effeithiol a phriodol sy'n cael eu gosod.

29. Dylid ystyried Rhaglen Dileu TB Llywodraeth Cymru fel rhaglen a fydd yn rhoi hwb i economi Cymru yn y pen draw. Y canlyniad yn y pen draw fydd dileu TB buchol yn llwyddiannus, a bydd hyn yn arwain at leihad yng ngwariant y Llywodraeth ar ddileu TB a thaliadau iawndal TB a’r costau cysylltiedig, yn ogystal â lleihad o ran y costau canlyniadol y mae’r diwydiant yn eu hwynebu, gan roi hwb i economi Cymru.

30. Mae'r rhaglenni Grant Amgylchedd i gyd wedi'u cynllunio i adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn fwy diweddar egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae'n ofynnol i'r holl geisiadau am gyllid a geir nodi sut y bydd y gweithgarwch sy'n cael ei gynnig yn cyfrannu at atal mewn termau clir a sut y maent wedi eu cymhwyso wrth gynllunio'r prosiect a sut y bydd yn cael ei gymhwyso wrth gyflawni.

31. Mae fy swyddogion wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro’r rheini sy'n derbyn grantiau gan ofyn iddynt baratoi adroddiad rheolaidd ar ganlyniadau’r grant gan gynnwys gwariant, allbwn, canlyniadau a

manteision lluosog. Caiff y rhain eu monitro a'u hasesu gan y Tîm Grantiau a'r Timau Polisi perthnasol cyn i unrhyw daliad am gyfnod gael ei wneud.

**Llunio Polisïau ar sail Tystiolaeth**

32. Mae amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn sail i sectorau economaidd sylweddol gan gynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd, twristiaeth a choedwigaeth ac maent yn bwysig i feysydd polisi eraill gan gynnwys iechyd a llesiant, ynni a seilwaith.

33. Er mwyn datblygu polisïau sy'n meithrin cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac amgylchedd i werthuso effaith polisi, mae Llywodraeth Cymru yn caffael Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig.

34. Bydd Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig yn adeiladu ar lwyddiant Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir. Bydd yn sefydlu sail dystiolaeth allweddol i lywio dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol a'r Rhaglen Datgarboneiddio.

35. Bydd yn meintoli'n well y berthynas rhwng rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac iechyd y cyhoedd a llesiant gan lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar draws Llywodraeth Cymru.

36. Mae'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn nodi'r amcanion ar gyfer rheoli llifogydd ac erydu arfordirol. Mae lefel dda o dystiolaeth o fapiau risg llifogydd presennol (ar gyfer risg llifogydd afonydd, arfodirol a dŵr wyneb), Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, strategaethau lleol, yr Asesiad Perygl Lllifogydd Cenedlaethol a'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl. Mae'r dystiolaeth a'u diweddariadau eu hunain wedi eu cynorthwyo gan gyllid refeniw i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rhaglen ymchwil ar y cyd.

37. Yn ychwanegol, mae astudiaethau annibynnol fel yr adroddiad Llifogydd yng Nghymru yn y dyfodol ac Adolygiad Arfodir Cymru yn helpu i nodi'n glir yr angen am fuddsoddiad parhaus a'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â llifogydd a newid yn yr hinsawdd.

38. Er mwyn datblygu ffocws y Grant Cyfalaf Seilwaith Gwyrdd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru drwy'r Grŵp Tystiolaeth Rheoli Adnoddau Naturiol Strategol, i ddatblygu sail dystiolaeth er mwyn llywio targedu buddsoddi. Mae hyn yn cynnwys ymarfer mapio ar draws Cymru gan ddefnyddio data presennol ac adeiladu ar SoNaRR i ganolbwyntio ar feysydd o botensial ar gyfer buddsoddi lle mae nifer o faterion yn bodoli, gan gynnwys er enghraifft:
    - ansawdd aer gwael;
    - diffyg coed trefol;
    - lefelau gwael o le gwyrdd a glas;
    - mynediad gwael i seilwaith gwyrdd;

- lefel uchel o sŵn traffig ffyrdd;
- anghenion bioamrywiaeth, gan gynnwys peillwyr;
- perygl llifogydd; ac
- amddifadedd (defnyddio MALlC).

39. Y nod yw cwblhau'r ymarfer mapio cychwynnol yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen. Caiff y gwaith hwn ei ddefnyddio i lywio targedu buddsoddi at brosiectau'n fwy effeithiol lle mae nifer o faterion yn bodoli a bydd yn helpu i ddatblygu rhaglen â thystiolaeth dda gynyddol o flwyddyn 2 (2018-19) ymlaen. Yna bydd angen gwneud cysylltiadau â'r dystiolaeth a nodwyd yn yr Asesiadau a Chynlluniau Llesiant Lleol a'r Datganiadau Ardal.

**Cydraddoldeb**

40. Ar ôl adolygu'r newidiadau allweddol uchod, cynhaliwyd Asesiadau Effaith Integredig ar gyfer nifer o raglenni allweddol yn cynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg a Hawliau Plant. Mae asesiadau effaith integredig yn cael eu cynnwys wrth lunio polisïau yn ogystal â phenderfyniadau ar y gyllideb.

41. Mae canlyniadau'r asesiadau effaith yn dangos nad oes effaith anghymesur ar y grwpiau a nodwyd yn sgil y penderfyniadau cyllidebol hyn.

**Y Gymraeg**

42. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol inni wneud y tri pheth a ganlyn:

    1. Ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (rhai cadarnhaol a negyddol)

    2. Ystyried sut i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol, lliniaru neu leihau'r effeithiau negyddol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

    3. Gofyn am sylwadau ar yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgysylltu neu ymgynghori a cheisio barn siaradwyr Cymraeg a defnyddwyr yr iaith.

43. Fel rhan o'r broses Asesiadau Effaith Integredig, rydym wedi ystyried effaith ein penderfyniadau ar y gyllideb ar y Gymraeg, ac wedi nodi nad oes unrhyw effeithiau sylweddol ar y ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg.

**Hawliau Plant**

44. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU, ac un o'r ychydig wledydd yn y byd, sydd wedi ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) o fewn y gyfraith ddomestig yn sgil Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

45. Gweithredir y dyletswyddau o fewn y Mesur mewn dau gam ac maent yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i:

- roi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yn y CCUHP a'i brotocolau dewisol wrth lunio neu adolygu polisïau neu ddeddfwriaeth;
- rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau yn y CCUHP wrth iddynt ddefnyddio eu holl bwerau neu ddyletswyddau cyfreithiol.

46. Ar draws fy mhortffolio, mae'n ofynnol bod pob aelod o staff yn ystyried sut mae ei waith yn effeithio ar hawliau plant, ac mae'r broses hon wedi llywio'r Asesiad Effaith Integredig. Ni nodwyd unrhyw effeithiau sylweddol ar hawliau plant wrth bennu'r gyllideb hon.

**Gadael yr Undeb Ewropeaidd**

47. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â Brexit yn disgyn yn helaeth ar fy mhortffolio, gyda llu o reoliadau Ewropeaidd yn cwmpasu meysydd cymhleth fel cemegion, pysgodfeydd, gwastraff, iechyd anifeiliaid ac iechyd, a rhaglenni mawr sy'n cael eu sbarduno gan yr UE gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) (yr ydym yn atebol yn uniongyrchol amdano i'r Comisiwn Ewropeaidd). Mae dros 90% o'n busnes yn gysylltiedig â'r UE. Rydym wedi gwneud yn dda ers y Refferendwm i drefnu adnoddau mewnol, paratoi rhan ddeiliaid, a gweithio'n agos gyda Defra a Gweinyddiaethau datganoledig eraill.

48. Mae Cymru yn cael budd net o Gyllid Strwythurol yr UE gyda £650 miliwn o gyllid yr UE yn dod i Gymru bob blwyddyn. Mae'r arian hwn yn chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi twf a swyddi ledled Cymru, gan helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant, cefnogi busnesau, hybu arloesedd a helpu i adfywio cymunedau.

49. Mae canlyniad trafodaethau Brexit yn aneglur. Yr hyn y gellir ei ddweud gyda rhywfaint o sicrwydd yw mai un o ganlyniadau Bil yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysu am Ymadael) (os caiff ei basio i gyfraith) fydd ymgorffori rheoliadau presennol yr UE ar y PAC i gyfraith y DU. O ystyried bod Llywodraeth y DU wedi cadarnhau bod cyllid PAC ar gael ar y lefel bresennol tan 2022 yn unig, mae bron yn anochel y bydd y DU gyfan yn parhau â chynlluniau presennol Colofn 1 a Cholofn 2 hyd at y pwynt terfynol hwnnw.

50. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cadw ei hymrwymiadau a'i rhwymedigaethau i'w Rhaglenni amrywiol a ffrydiau ariannu fel y cytunwyd â'r Comisiwn Ewropeaidd. Nes ein bod yn gadael yr UE yn derfynol, bydd cyllid fel taliadau (Colofn 1) PAC a'r Cynllun Datblygu Gwledig (Colofn 2) yn parhau i ddod i Gymru, sy'n golygu y gallwn fod yn eithaf sicr o'r cyllid tan 2020 a gallwn gymeradwyo prosiectau yr ydym wedi ymrwymo iddynt yn ystod y cyfnod hwnnw.

51. Mae ffenestri cynllun buddsoddi'r Cynllun Datblygu Gwledig sy'n agor ar gyfer prosiect a fydd yn ymrwymo eu gwariant cyn 2019 ac felly byddant

yn gweithredu'n arferol gyda'r taliadau'n gweithredu tan 2022. Gweithredir yr un trefniadau ar gyfer Cyllid Strwythurol, Cronfa Cydweithio Tiriogaethol Ewrop a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

52. Mae Cynllun Datblygu Gwledig Cymru yn gyllideb a arweinir gan y galw am nifer o flynyddoedd a gall amrywio ac mae'n cael ei benderfynu gan nifer y cynlluniau sy'n agor mewn unrhyw gyfnod penodol ynghyd â'r galw amcangyfrifedig. Mae angen i'n cyllidebau cydgyllido domestig fod yn hyblyg a rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o wariant a sicrhau cyfraniadau'r UE dros gyfnod y rhaglen 2014-2020.

53. Ym mis Mawrth, ymrwymais y gyfran derfynol, sef cyfanswm o £223 miliwn, o Gynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 i wneud defnydd llawn o warant y Trysorlys ar gyllido hyd 2020. Ers lansio'r Rhaglen Datblygu Gwledig, rydym wedi buddsoddi £787 miliwn er budd cymunedau, ffermwyr, coedwigwyr a busnesau bwyd yng Nghymru trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020. Dyna dros 82% o'r Rhaglen.

54. Ers cymeradwyo'r newid, mae'r dyraniad i'r Rhaglen wedi codi i £774.35 miliwn, gyda £ 519.62 miliwn o hwnnw'n arian o'r UE. O ystyried y dyraniad diwygiedig hwn i'r Rhaglen yn y dyfodol, mae'r ymrwymiad wedi cadw'i werth ychydig dros 100%. Yn ddiweddar, cytunais ar gynllun bras ar gyfer datgan diddordeb yng ngweddill y rhaglen. Fe welwch restr o'r cyfnodau ymgeisio sydd ar ôl ar ran y Rhaglen Datblygu Gwledig o wefan Llywodraeth Cymru.

55. Nid yw'n bosibl rhagweld gyda sicrwydd broffil y galw ar gyfer hyd y Rhaglen. Mae cyllideb refeniw'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi cael ei hail-lunio ac mae arbedion refeniw £0.2 miliwn yn 2018-19 a £3 miliwn yn 2019-20 wedi'u cyflawni yn seiliedig ar y rhagolygon presennol. Mae cyllideb cyfalaf ychwanegol £5.4 miliwn wedi'i dyrannu dros y cyfnod o dair blynedd er mwyn cyfateb i broffil cyfalaf disgwyliedig y Cynllun Datblygu Gwledig a sicrhau bod cyllid Ewropeaidd yn cael ei ddefnyddio'n llawn. Gallaf gadarnhau fy mod eisoes wedi ymrwymo'r swm llawn o gronfeydd Cynllun Datblygu Gwledig yr UE a ddyfarnwyd i Gymru, drwy gyfuniad o brosiect a gymeradwywyd a chlustnodi cyllid ar gyfer gweithgareddau fel y Fenter Strategol Amaethyddiaeth a chylchoedd ymgeisio yn y dyfodol.

56. O ran adnoddau, rwy'n ymwybodol o oblygiadau tymor hwy gadael yr UE ac mae'r angen i gymryd camau i baratoi ar gyfer hyn yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth. Rwyf wedi sefydlu tîm o swyddogion sy'n ymgysylltu â thimau polisi ar draws fy mhortffolio, yn ogystal â chyda rhanddeiliaid allanol.

57. Rydym yn cydweithio i nodi'r prif faterion i Gymru y mae angen eu trafod mewn unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU, yn ogystal â nodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â gadael yr UE. Bydd y camau hyn yn helpu i nodi'r mesurau pontio y bydd angen inni eu gweithredu a chanolbwyntio arnynt.

58. Ar hyn o bryd mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn cael ei gyllido o gyllidebau'r rhaglen bresennol a chostau rhedeg ar draws yr adran. Bydd yn angenrheidiol imi wneud penderfyniadau pellach ar adnoddau wrth inni gael mwy o eglurder ar strwythur y setliad rhwng y DU a'r UE wrth inni agosáu at 2019, yn ystod y cyfnod pontio ac ar ôl hynny.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

59. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi llunio ein paratoadau a'n penderfyniadau Cyllideb.

60. Rwyf wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynghylch sut i wario fy nghyllideb y flwyddyn nesaf ac ar ôl hynny. Rwyf wedi paratoi'r gyllideb drwy edrych ar y dystiolaeth o anghenion a phwysau yn ein meysydd blaenoriaeth yn ein Strategaeth Genedlaethol – Ffyniant i Bawb. Adlewyrchir y dull gweithredu hwn yn ein penderfyniadau i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus a'n rhaglenni atal a'u diogelu, ac i gael cydbwysedd rhwng ein hanghenion tymor byr a hirdymor.

61. Mae fy mharatoadau ar gyfer y gyllideb ddrafft yn dangos sut rydym wedi ceisio adlewyrchu fframwaith y Ddeddf wrth nodi ein blaenoriaethau gwario. Adolygwyd tueddiadau presennol ac amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol a'u heffaith bosibl yn y tymhorau byr, canolig a hir. Gwnaethom hyn i sicrhau, cyhyd ag y bo'n bosibl, nad yw ymatebion tymor byr yn cael effaith andwyol yn y tymor hwy.

62. Er enghraifft, mae gennym hanes cryf o gynyddu cyfraddau ailgylchu ledled Cymru, sy'n golygu mai ni sydd ar y brig yn y DU, yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd. Yn ogystal, mae'r gyllideb cyfalaf gwastraff ar gyfer 2019-20 yn cynnwys buddsoddiad o £6.5 miliwn yng Nghronfa Buddsoddi Cyfalaf yr Economi Gylchol. Un o'r blaenoriaethau polisi allweddol ar gyfer gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at y nodau llesiant yw cynyddu elfennau ailddefnyddio ac ailgylchu y dull economi gylchol yng Nghymru.

63. Mae ein buddsoddiad parhaus yn Twf Gwyrdd Cymru yn dangos sut mae ein meddwl arloesol yn gwneud i gyllidebau fynd ymhellach ar draws Llywodraeth Cymru. Rydym yn buddsoddi mewn modd sydd nid dim ond yn lleihau allyriadau, ond mae'n galluogi arbedion arian parod oherwydd bod cyrff cyhoeddus yn gwario llai ar eu biliau ynni. Mae'n canolbwyntio ar brosiectau seilwaith a fydd yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys cynhyrchu ynni adnewyddadwy, defnyddio adnoddau'n effeithlon, ac ynni o brosiectau gwastraff.

64. Mae ein Rhaglen Cartrefi Clyd yn gwneud cyfraniadau sylweddol ar draws llawer o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru o dan ein Strategaeth Genedlaethol "ffyniant i bawb" gan gynnwys hybu iechyd a llesiant da. Cyflawnir hyn drwy greu swyddi a chyfleoedd busnes, gwella'r stoc dai yn yr hirdymor, lleihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â thlodi tanwydd a'i

amrywiaeth o effeithiau negyddol cysylltiedig ar iechyd, llesiant a chyrhaeddiad addysgol.

65. Mae'r Gronfa Seilwaith Gwyrdd wedi'i chynllunio i adlewyrchu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ofynnol i sefydliadau baratoi eu ceisiadau grant gan gyfeirio'n benodol at sut y byddant yn cyflawni yn erbyn nodau ac egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac wrth wneud hynny, ddangos eu bod yn cyflawni llawer o fanteision.

66. Mae datganoli wedi caniatáu i Gymru ddatblygu sylfaen ddeddfwriaethol nodedig drwy Ddeddf yr Amgylchedd, sy'n nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd penderfyniadau polisi yng Nghymru. Mae'r ddau ddarn hyn o ddeddfwriaeth yn ein galluogi i wneud pethau'n wahanol i weddill y DU, gan adlewyrchu nodweddion nodedig Cymru.

67. Mae hyn wedi rhoi'r hyblygrwydd i ddatblygu ein polisïau a'n dulliau cyflawni pwrpasol ar gyfer sectorau bwyd-amaeth a choedwigaeth, o fewn cyd-destun fframwaith Ewropeaidd. Y bwriad yw adeiladu ar ein llwyddiannau a datblygu a gweithredu fframwaith deddfwriaethol pwrpasol ymhellach. Fodd bynnag, mae cyflwyno Bil yr Undeb Ewropeaidd (Hysbysu am Ymadael) yn her sylweddol i'n gallu i gyflawni hyn. Byddai'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyfyngu ar ein gallu i gynllunio a gweithredu i baratoi ein sectorau ar gyfer effeithiau Brexit ac ar ôl hynny.

**Treth Gwarediadau Tirlenwi**

68. Mae'r gyllideb weithredol o £1.5 miliwn ar gyfer cydymffurfio a gorfodi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi wedi ei hychwanegu at ein cyllidebau o 2018-19. Mae'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ceisio lleihau faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn unol â nod Llywodraeth Cymru o sicrhau dyfodol diwastraff. Caiff rôl cydymffurfio a gorfodi Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ei dirprwyo i gorff cyflawni i'w gweinyddu.

**Deddf yr Amgylchedd a Pholisi Adnoddau Naturiol**

69. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi diben – ‘rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol’ - drwy ddeddfwriaeth a fydd yn galluogi adnoddau naturiol Cymru i gael eu rheoli mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion systemig ar gyfer ein hadnoddau naturiol a sicrhau'r manteision mwyaf posibl ohonynt ar gyfer ein llesiant.

70. Ym mis Awst eleni cyhoeddais ein Polisi Adnoddau Naturiol newydd, yr ail brif garreg filltir wrth weithredu deddf arloesol Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

71. Mae'r polisi yn nodi tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol a fydd yn ysgogi cyflawni ar draws pob un o'n nodau llesiant er budd cymunedau a'n heconomi, yn ogystal â gwella'r amgylchedd.

- dod o hyd i atebion seiliedig ar natur
- cynyddu ynni adnewyddadwy a dulliau o ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a
- mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd

72. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn rhan o gyfres o ddulliau cyflawni. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol ei fod yn nodi blaenoriaethau, cyfleoedd a risgiau Gweinidogion Cymru o ran rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol gan gynnwys yr hyn y dylid ei wneud mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, a pholisïau ar gyfer cyfrannu at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol.

73. Diben y polisi Adnoddau Naturiol yw nodi sut y bydd effaith gyfunol y polisïau perthnasol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Naturiol Cymru. Mae hyn yn unol â'r cyfeiriad polisi hirdymor a oedd yn sail i Ddeddf yr Amgylchedd a bydd unrhyw gostau o'r fath yn cael eu talu o waith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn y meysydd polisi unigol a gellir eu rheoli o fewn yr amlen MEG is wrth symud ymlaen.

**Deddf Cymru**

74. Bwriedir i Ddeddf Cymru gael ei gweithredu'n llawn ar 1 Ebrill 2018. Bydd hyn yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb am warchod natur yn y môr, trwyddedu morol a'r Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol yn yr ardal ar y môr i Weinidogion Cymru.

75. Bydd y gwaith gwarchod natur (sy'n cynnwys trwyddedu rhywogaethau) yn cynnwys nodi a dynodi 5 Ardal Forol Warchodedig newydd (i gwblhau'r rhwydwaith o safleoedd, rheoli, gorfodi a monitro'r safleoedd a thrwyddedu rhywogaethau. Rwyf wedi sicrhau fy mod wedi cryfhau'r gyllideb Forol a Physgodfeydd drwy ddyrannu £0.5 miliwn arall er mwyn rheoli'r costau hyn

76. Mae'n debygol y bydd gwaith trwyddedu ar y môr yn fach iawn a dylai fod yn bosibl adennill costau ac o dan y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol, dylai'r llygrwr neu'r rhai sy'n achosi'r difrod dalu am hynny. Ni fyddwn yn disgwyl i unrhyw adnoddau ychwanegol sylweddol fod yn ofynnol o dan y cyfrifoldebau newydd hyn.

77. Ar hyn o bryd, gall Cyfoeth Naturiol Cymru, drwy weithredu fel yr awdurdod trwyddedu ar ran Gweinidogion Cymru, yn yr ardal glannau Cymru adennill y costau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau am geisiadau am drwyddedau morol a gwasanaethau cysylltiedig.

78. Mae Deddf Cymru ar hyn o bryd yn cynnig datganoli pwerau ychwanegol mewn perthynas â rhoi caniatâd i ddatblygiadau ynni yng Nghymru. Bydd ein gwaith o ran negodi'r darpariaethau hyn gyda Llywodraeth y DU a'u gweithrediad yn cael ei ariannu drwy'r Costau Rhedeg Adrannau a Chyllidebau Rhaglenni cyfredol. Y bwriad polisi presennol yw y bydd costau i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau cydsynio sydd i'w cyflwyno yn cael eu hadennill drwy ffi ymgeisio.

**Dyraniadau Cyfoeth Naturiol Cymru**

79. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o feysydd i sefydlu eu gwreiddiau ac, yn benodol, mae wedi dechrau datblygu Rheoli Adnoddau Naturiol fel ein dull craidd o gyflawni ei holl gyfrifoldebau.

80. Yn ogystal, mae ei gyfrifoldebau deddfwriaethol wedi golygu ei fod wedi gweithredu gofynion deddfwriaeth newydd, yn arbennig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

81. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu rhaglen bwysig o Adolygiadau Meysydd Busnes i ystyried sut y maent wedi'u strwythuro er mwyn cyflawni eu blaenoriaethau. Fel y cyhoeddwyd yn ei Gynllun Busnes diweddar, hyd yn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi sicrhau arbedion i leihau costau ac wedi gwella cynhyrchiant mewn ffyrdd a fydd yn sicrhau mwy na £90 miliwn o fanteision. Mae llawer mwy o gyfleoedd i wella cynhyrchiant a lleihau costau fel rhan o'i gynlluniau trawsnewid.

82. O ran Ardaloedd Morol Gwarchodedig, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i fodloni ei ddyletswyddau statudol o fewn ei ddyraniad cyllid. Rwy'n cyfarfod â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheolaidd a byddaf yn trafod unrhyw bryderon neu faterion sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth fodloni ei rwymedigaethau.

83. Rwyf wedi ystyried y gyllideb a blaenoriaethau ynghylch Cyfoeth Naturiol Cymru yn ofalus ac o ystyried y newidiadau trawsnewidiol, y cyllid Buddsoddi i Arbed er mwyn cefnogi'r newidiadau, a'r arbedion disgwyliedig, nid wyf yn gallu diogelu Cyfoeth Naturiol Cymru rhag ein gostyngiadau refeniw. Rwyf wedi gostwng Cymorth Grant Cyfoeth Naturiol Cymru 5% ar gyfer 2018-19 a 5% arall yn 2019-20. Byddaf yn sicrhau y bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn helpu i wireddu'r arbedion hyn.

**Rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd**

84. Dros oes y Llywodraeth hon byddwn yn buddsoddi dros £140 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol sy'n

gweithio gydag awdurdodau lleol tuag at fuddsoddi £150 miliwn o gyfalaf dros dair blynedd o 2019.

85. Mae cyllidebau Refeniw Llifogydd wedi eu diogelu ac mae cyllidebau Cyfalaf wedi eu llunio i gyllido ymrwymiadau presennol y Rhaglen a chyfalaf ar gyfer y Rhaglen Rheoli Perygl Arfordirol arloesol. Y cyllid refeniw ychwanegol gwerth £2.4 miliwn yn 2019-20 yw dechrau ffrwd refeniw hirdymor er mwyn cyllido buddsoddiad cyfalaf awdurdodau lleol yn y rhaglen drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol.

86. Yn 2019-20, bydd cyllid refeniw ar gyfer y rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yn dechrau; bydd hyn yn codi £150 miliwn dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer cynlluniau i reoli risgiau cyfredol a risgiau yn y dyfodol i gymunedau arfordirol ledled Cymru yn sgil y newid yn yr hinsawdd a'r ffaith bod lefel y môr yn codi. Mae awdurdodau lleol wedi nodi 41 o brosiectau posibl. Mae'r achosion busnes yn cael eu hadolygu a, hyd yma, awdurdodwyd symud traean ohonynt ymlaen i'r cam cynllunio manwl eleni – er enghraifft cynllun yn nwyrain y Rhyl, sydd â hanes o lifogydd yn ddiweddar. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdod lleol gan ddarparu ychydig dros £1 filiwn o gymorth i gefnogi gwaith cynllunio manwl ac i ddatblygu ymhellach yr achos busnes ar gyfer y cynllun i ddiogelu preswylwyr rhag peryglon llifogydd heddiw ac yn y dyfodol.

**Newid yn yr hinsawdd a chyllidebu carbon**

87. Yn y pen draw, mae newid yn yr hinsawdd yn gysylltiedig â thwf a swyddi oherwydd mae'n effeithio ar ein ffyniant economaidd ac, yn hanfodol, mae'n cyflwyno cyfleoedd sylweddol ar gyfer y dyfodol ac yn benodol o ran twf gwyrdd.

88. Mae rhan o'm cyllideb newid yn yr hinsawdd wedi'i neilltuo ar gyfer cydgysylltu'r gweithgaredd ar yr hinsawdd yn ganolog o amgylch Llywodraeth Cymru. Mae'r adnodd canolog hwn yn cynnwys datblygu a monitro'r cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer datgarboneiddio a meithrin cydnerthedd yr hinsawdd ac adrodd arno.

89. Mae BEL 2816 Newid yn y Hinsawdd wedi ei ad-drefnu hefyd, gan drosglwyddo cyfrifoldebau gyda £0.558 miliwn yn cael ei drosglwyddo i'r BEL 3770 Datgarboneiddio ac Ynni ac ar gyfer trosglwyddo £0.731 miliwn i'r BEL 2838 Cyflenwi Arloesol mewn perthynas â rhaglenni Ecoysgolion a Maint Cymru.

90. Mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi llwybr Datgarboneiddio clir i Gymru yng nghyd-destun ein rhwymedigaethau presennol ar gyfer y DU ac yn rhyngwladol gyda gostyngiad o leiaf 80% mewn allyriadau erbyn 2050.

91. Nes bod y cyllidebau carbon wedi'u pennu, ni allwn asesu'n fanwl y dyraniad ariannol yn y gyllideb ar gyfer y camau gweithredu a fydd yn helpu i leihau allyriadau. Fodd bynnag, gan fod ein holl weithredoedd

gyda'i gilydd yn cael effaith ar newid yn yr hinsawdd, byddai hyn yn cael ei rannu ar draws holl weithgareddau fy mhortffolio.

92. Rydym yn datblygu'r rheoliadau i bennu'r targedau allyriadau a'r cyllidebau carbon, sy'n ein galluogi i arwain cyflawni, gwerthuso cynnydd yn well a rhoi sicrwydd ac eglurder ar gyfer buddsoddi a busnes. Rydym yn canolbwyntio nawr ar weithredu ein fframwaith cyflawni hirdymor, fel y nodwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd. Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein hymrwymiadau deddfwriaethol o osod ein dwy gyllideb garbon gyntaf mewn rheoliad erbyn 2018.

93. Bydd y £0.5 miliwn ychwanegol ar gyfer Datgarboneiddio ac Ynni Glân BEL 3770 yn galluogi'r tîm Datgarboneiddio yn gallu gwneud gwaith sy'n rhan o rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd. Bydd y gyllideb yn helpu i wella ymgysylltu a throsglwyddo gwybodaeth mewn perthynas â'r rhaglen i'r cyhoedd, rhanddeiliaid a staff eraill Llywodraeth Cymru.

94. Bydd y gyllideb yn cwmpasu Datgarboneiddio y Sector Cyhoeddus – Prosiect yn dilyn prosiect carbon cadarnhaol Cyfoeth Naturiol Cymru, i edrych ar y llwybr hirdymor ar gyfer datgarboneiddio llawn, gyda phrosiectau arddangos ar sut i ddatgarboneiddio'n llawn gan ystyried uchelgais 2030. Bydd y canfyddiadau o'r prosiect yn darparu cam nesaf dull o gefnogi'r sector cyhoeddus.

95. Yn ogystal, bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid - Wrth inni ddatblygu'r rhaglen ymhellach, yn enwedig o ran y Cynllun Cyflawni bydd angen inni gynnal rhaglen o gyfathrebiadau allanol i gynnwys eraill (fel rhan o'n gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol), i godi ymwybyddiaeth a helpu eraill i gymryd camau gweithredu.

96. Bydd y gyllideb hefyd yn cyllido digwyddiadau i hyrwyddo'r rhaglen Datgarboneiddio ac i randdeiliaid roi cyngor ar y dull y maent yn ei ffafrio. Mae rhanddeiliaid wedi rhoi adborth eisoes ar y digwyddiadau a gynhaliwyd gennym hyd yma gan dynnu sylw at yr angen am ragor o ymgysylltu.

97. Yn olaf, bydd y gyllideb yn asesu ymhellach fasnach a gwrthbwyso yn benodol i asesu'r opsiynau'n ymwneud â chynllun masnachu yng Nghymru.

**Y Môr a Physgodfeydd**

98. Mae dyraniad ychwanegol o £0.5 miliwn wedi'i wneud ar gyfer y Môr a Physgodfeydd i ymateb i bwysau ychwanegol ar y gyllideb megis:

- Paratoi ar gyfer Gadael yr UE a pharodrwydd y sector môr a physgodfeydd;
- Gweithredu Deddf Cymru 2017;
- Cam datblygu terfynol a gweithredu Cynllun Morol cyntaf Cymru; ac

- Adeiladu ar ein rhaglen bresennol o waith er mwyn helpu i sicrhau bod ein Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cyflawni ac yn aros mewn cyflwr ffafriol.

99. Mae nifer o'r eitemau uchod yn cynnwys gwella gorfodi gweithredol Llywodraeth Cymru, gan gyflwyno cynlluniau i wella mentrau rheoli monitro morol, gwyddoniaeth a data er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i reoli adnoddau morol yn gynaliadwy. Bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd ymhellach er mwyn datblygu a gweithredu polisi Môr a Physgodfeydd Cymru.

100. Yn 2018-19, bydd y cynllun morol yn dal i gael ei weithredu a bydd paratoadau yn mynd rhagddynt i adolygu'r cynllun presennol. Bydd y costau ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys adolygu pa mor dda mae'r cynllun yn gweithio, rhagor o dystiolaeth trawsffiniol a dehongli a rhagor o waith ar dystiolaeth i ategu gwaith blaenoriaethu yn yr economi morol.

101. Y disgwyliad yw pan fydd deddfwriaeth yr UE yn llifo yn ôl i feysydd o gymhwysedd datganoledig, dylai lifo yn ôl i Gymru. Yna dylai pedair gweinyddiaeth y DU weithio gyda'i gilydd i gytuno ar fframwaith teg neu ddull gweithredu ar y cyd. Bydd hyn yn ehangu ymhellach y negodi o fewn y DU.

102. Yn ein trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, byddwn yn parhau i fynd ati i fyfyrio ar anghenion Cymru. Rwyf hefyd yn cytuno ei bod yn bwysig ein bod yn cytuno gyda’n gilydd ar fecanwaith i barhau i reoli ardaloedd morol trawsffiniol, pan fyddwn yn gadael yr UE.

103. Ynglŷn â'r adnoddau ar draws canghennau'r Môr a Physgodfeydd, mae llawer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys gwaith yr Is-adran ar reoli ardaloedd morol gwarchodedig, wedi'u lledaenu ar draws yr Is-adran. Mae gwaith tîm ar draws yr Is-adran a chyda sefydliadau eraill, fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn hanfodol wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

104. Felly nid yw'r modd mae staff yn cael eu cynnull yn y strwythur Is-adrannol yn rhoi darlun cywir o'r adnoddau sy'n rhan o gyflawni ffrydiau gwaith. Fodd bynnag, dyma'r staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gysylltiedig â'r Canghennau canlynol:

| | |
|---|---|
| Y Gangen Polisi Morol (h.y. cynllunio morol) | 9.0 CALl |
| Cangen Cadwraeth Morol a Bioamrywiaeth, | 5.8 CALl |
| Polisi Pysgodfeydd Morol (Polisi Pysgodfeydd Môr) | 2.5 CALl |
| Gweithrediadau | 28 CALl |

**Cynllun i Ddileu TB buchol**

105. Rydym wedi diogelu'r buddsoddiad yng nghyllidebau Dileu TB ac Iechyd a Lles Anifeiliaid. Cydnabyddir yn llawn na fydd un dull gweithredu unigol yn arwain at ddileu TB ac mae angen inni fynd i'r afael â TB buchol

o bob ongl er mwyn ei reoli, a dyna pam rydym wedi datblygu dull gweithredu cynhwysfawr. Mae elfennau o'r fath yn cynnwys profion blynyddol a'r gwaith epidemioleg TB sy'n cael ei wneud sy'n ein helpu i wella ein dealltwriaeth o'r darlun o'r clefyd ledled Cymru.

106. Yn dilyn ymgynghoriad yn gynharach eleni caiff amrywiaeth o fesurau eu cyflwyno ym mhob un o'r rhanbarthau TB newydd yng Nghymru sydd wedi eu cynllunio i wella'r Rhaglen TB a'i gwneud yn fwy cynaliadwy. Cafodd y gyfres gyntaf o newidiadau ei chyflwyno ar 1 Hydref 2017.

107. Mae'r cynlluniau gweithredu pwrpasol newydd yn cynnwys cynyddu'r defnydd o'r dulliau sydd gennym eisoes. Gall y gwariant ar gyfer y fenter newydd hon gael ei wireddu o fewn y gyllideb bresennol ar gyfer ymrwymiad gwaith maes.

108. Ynghyd â'r mesurau newydd hyn mae angen inni fod yn ddarbodus gyda'n gyllidebau hefyd, yn enwedig yn sgil colli cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae'n bwysig ein bod yn atal anifeiliaid a laddwyd rhag cael eu gorbrisio oherwydd bod hyn yn cynyddu'r gost i'r trethdalwr a phrin yw'r cymhelliant i ffermwyr er mwyn atal TB.

109. Gyda'r mesurau newydd, mae'n ddarbodus i amddiffyn cyllideb Dileu TB ac Iechyd a Lles Anifeiliaid. Byddaf yn parhau i adolygu'r gyllideb Iawndal yn amodol ar ganlyniad y mesurau newydd.

110. Mae ein Rhaglen Dileu yn cael ei hadolygu'n flynyddol fel rhan o gyflwyno Cynllun Dileu TB y DU i'r Comisiwn Ewropeaidd ac mae wedi cael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd am saith mlynedd yn olynol.

111. Cafodd Cynllun Dileu TB y DU 2017 ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghyd â €27.6 miliwn o gydgyllido. Mae cyllid yr UE wedi'i rannu rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn seiliedig ar nifer gwirioneddol y profion a wnaed a'r anifeiliaid y rhoddwyd iawndal amdanynt. Mae Cymru fel arfer yn cael rhwng £2-4 miliwn y flwyddyn, sef tua 10% o'n cyllideb, ar gyfer gweithredu Cynllun Dileu TB y DU.

112. Ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, ni fyddwn yn llacio'r rheolaethau yr ydym yn eu gweithredu ar hyn o bryd. Wrth inni symud tuag at ddileu mae'n debygol iawn y bydd angen inni weithredu mesurau mwy llym er mwyn lleihau clefydau ymhellach. Byddwn yn parhau i sicrhau bod enw da Cymru ar gyfer y safonau uchaf o ran iechyd a lles anifeiliaid yn parhau'n flaenoriaeth.

113. Os bydd angen inni gynyddu adnoddau ar gyfer y Rhaglen ehangach byddwn yn blaenoriaethu ffrydiau gwaith er mwyn aros o fewn y gyllideb. Rydym yn parhau i fonitro a gwerthuso polisïau yn sgil yr wybodaeth ddiweddaraf ac mae hyn yn cynnwys craffu ar yr holl gostau, sicrhau gwerth am arian a nodi arbedion lle bynnag y bo modd.

114. Hyd nes y bydd y polisïau'n cael eu cyflwyno ac yn cael eu hymgorffori fel busnes, fel arfer rhagwelir y bydd y gwariant yn is na'r gyllideb. Am y rheswm hwn disgwylir y bydd y gwariant yn cynyddu ar gyfer 2018-19, ond bydd yn parhau o fewn y gyllideb.

**Y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid**

115. Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru a Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (AHWF) yn cytuno ac yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu blynyddol sy'n nodi'r cerrig milltir cyflawni allweddol am y 12 mis i ddod. Mae'r cynllun yn cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n cael eu datblygu gan Grŵp AHWF Cymru. Y fethodoleg sy'n sail i'r dull gweithredu hwn yw Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau sy'n rhoi pwyslais cryf ar yr angen am dystiolaeth o ran lle mae angen gweithredu.

116. Mae Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Ym mis Awst, cyhoeddais y trydydd cynllun gweithredu blynyddol o dan y Fframwaith, ynghyd ag adolygiad o'r flwyddyn 2016-17. Mae'r cynllun ar gyfer 2017-18 yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a'r camau gweithredu allweddol i'w cyflawni y bu i Lywodraeth Cymru a'r Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru gytuno arnynt. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyfrannu at ganlyniadau strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid a hefyd y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

117. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys datblygu cam nesaf y Rhaglen Dileu TB Buchol yn ogystal â pharhau i fodloni ein rhwymedigaethau statudol i ddiogelu'r gadwyn fwyd ac iechyd y cyhoedd. Mae gennym nifer o flaenoriaethau ar gyfer lles anifeiliaid fel Arddangosion Symudol o Anifeiliaid, Codau Ymarfer Lles Anifeiliaid a Lles Anifeiliaid ar Adeg eu Lladd.

118. Yn ogystal, mae'r gwaith ar Gyfraith Iechyd Anifeiliaid yr UE wedi dod yn flaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf. Ceir cytundeb ar draws y Deyrnas Unedig i ddefnyddio'r 2 flynedd nesaf i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth drydyddol yr UE sy'n dod i'r amlwg. Ein hamcan yw sicrhau fod fframwaith deddfwriaethol yn ei le i gynorthwyo masnach a'r angen i ymateb i achosion o glefyd anifeiliaid yn gyflym ac yn effeithiol pan fyddwn yn gadael yr UE.

119. Bydd ymgysylltu a chydweithio yn hanfodol dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n llawn â gweithgor Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion y DU gyfan a chyda Grŵp Uwch Swyddogion y DU yn eu hystyriaethau ar Adael yr Undeb Ewropeaidd.

120. Mae Grŵp AHWF Cymru hefyd yn cynrychioli diddordebau iechyd a lles anifeiliaid Grŵp Bord Gron UE Ysgrifennydd y Cabinet dros yr

Amgylchedd a Materion Gwledig ac is-grwpiau'r grŵp hwnnw. Mae'r is-grwpiau wedi'u sefydlu'n ddiweddar i alluogi trafodaethau manylach ar faterion allweddol.

**Gweithredu Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014**

121. Rwy'n bwriadu cyhoeddi'r adroddiad annibynnol sy'n cynnwys y canfyddiadau a'r argymhellion ar Wefan Llywodraeth Cymru.

122. Mae'r adolygiad, a gynhaliwyd gan sefydliad annibynnol ar ran Llywodraeth Cymru, wedi ystyried yr holl ddogfennaeth berthnasol gan gynnwys y memorandwm esboniadol a'r asesiad effaith rheoleiddiol a baratowyd fel rhan o broses y Bil.

123. Mae'r adolygiad yn gadarnhaol ac mae'n cydnabod yn y tair blynedd ers i'r Ddeddf ddod i rym y bu gostyngiad yn nifer y ceffylau a nodwyd ac a symudwyd o ganlyniad i bori anghyfreithlon, cael eu gadael a chrwydro.

124. O ran achosion a gofnodwyd, gwelwyd bod cyfraniad y sectorau cyhoeddus ac elusennol o ran mynd i'r afael â phob achos yn amrywiol, ac mae'r amser a dreulir gan staff gwirfoddol a chyflogedig, ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddir, yn anodd eu mesur a'u prisio.

125. At hynny nid yw'r sectorau elusennol a gwirfoddol yn gallu rhoi costau penodol y maent wedi eu priodoli i bob digwyddiad oherwydd gallai fod yn niweidiol i'r cymorth a'r rhoddion y maent yn eu cael gan aelodau o'r cyhoedd.

**Gweithredu Deddf Tiroedd Comin 2006**

126. Drwy Ddeddf Tiroedd Comin 2006, mae Llywodraeth Cymru yn anelu at ddiogelu amrywioldeb ac amrywiaeth tir comin yng Nghymru yn y dyfodol drwy symleiddio'r ddeddfwriaeth gymhleth sydd wedi'i ddiogelu yn y gorffennol.

127. Mae cael cofrestrau electronig ar gyfer tir comin yng Nghymru yn creu arbedion maint ac arbedion o ran costau ar draws y sector cyhoeddus. Yn ogystal â'r arbedion posibl mewn costau ar gyfer awdurdodau lleol, mae manteision i'w cael o ran taliadau'n ymwneud â chynlluniau i'r sector amaethyddol (ar gyfer cynlluniau presennol ac unrhyw gynlluniau a datblygwyd ar ôl gadael yr UE). Mae'r manteision yn cynnwys gwell sail gyfreithiol ar gyfer taliadau yn ogystal â gwelliannau o ran gweinyddu. Byddai cofrestrau electronig hefyd yn galluogi nodi ffiniau tiroedd comin a chominwyr allweddol yn gyflym mewn unrhyw sefyllfa clefyd hysbysadwy i gynorthwyo ymateb cyflym.

128. Mae Deddf 2006 yn cael ei gweithredu drwy raglen dreigl gyda rhannau sylweddol sydd eisoes wedi dod i rym.

129. Y flaenoriaeth yw gweithredu gweddill Rhan 1 o'r Ddeddf gan gynnwys creu cofrestrau electronig i wella cywirdeb y cofnodion a gedwir a mynediad y cyhoedd iddynt. Bydd yr amserlen ar gyfer gweddill Rhan 1 yn cael ei sefydlu er mwyn galluogi cyflwyno cofrestrau Electronig a chyd-fynd â hyn.

130. Mae dull wedi ei gyflwyno sy'n galluogi'r awdurdodau Cofrestru Tir Comin ac Arolygiaeth Gynllunio Cymru i godi ffi ar gyfer penderfynu'r ceisiadau hynny yr ystyrir eu bod er budd ariannol personol yr ymgeisydd.

131. Ar gyfer y darpariaethau hynny yr ystyrir eu bod er budd y cyhoedd, fel cofrestru tir comin neu feysydd tref neu bentref, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gyllido costau penderfynu. Mae cyllideb flynyddol o £50,000 wedi'i sefydlu ar gyfer penderfynu ar geisiadau budd y cyhoedd, bydd y ffigur hwn yn parhau i gael ei adolygu er mwyn ystyried y newid disgwyliedig yn y galw.

132. Mae’n bleser gennyf adrodd bod gwaith yn mynd rhagddo bellach ar y prosiect i ddatblygu a gweithredu cofrestrau electronig ar gyfer tir comin neu feysydd tref neu bentref yng Nghymru. Mae bwrdd prosiect wedi'i sefydlu nawr i oruchwylio'r gwaith hwn wrth iddo symud ymlaen.

133. Bydd cyflwyno cofrestrau electronig yn gwneud rheoli data tir comin a meysydd tref neu bentref yn fwy effeithiol, gan alluogi data mwy cywir a diogel, arbed gwaith mewn awdurdodau lleol ac adroddiadau cenedlaethol cyson drwy un system rheoli tir comin a meysydd tref neu bentref i Gymru.

134. Mae manteision sylweddol yn gysylltiedig â chael cofrestrau electronig gan gynnwys;

- Darparu mwy o wybodaeth a gwybodaeth fwy hygyrch ar gyfer cyfrifo taliadau i ffermwyr. (Mae tua 20% o'r holl ffermydd yng Nghymru sy'n hawlio taliadau SPS yn datgan tir comin at ddibenion taliadau);

- Nodi ffiniau comin a chominwyr allweddol yn gyflymach er mwyn cynorthwyo ymateb cyflym yn ystod achos o reoli clefydau anifeiliaid hysbysadwy

- arbedion cost ar gyfer awdurdodau lleol, i'w cael drwy arferion gwaith mwy effeithiol ac effeithlon, sy'n cyd-fynd â’r broses o ddiwygio llywodraeth leol yn ehangach.

135. Ar gyfer y camau gweithredu uchod, rwyf wedi dyrannu £0.433 miliwn o gyllid refeniw yn 2018-19 a £0.8 miliwn o gyllideb cyfalaf dros y ddwy flynedd nesaf i ymrwymo i ddatblygu cofrestrau’r Ddeddf Tir Comin o dan BEL 2866. Byddaf yn parhau i adolygu'r gofynion cyfalaf wrth i'r prosiect ddatblygu.

**Deddf Cynllunio (Cymru) 2015**

136. Cafodd y rhan fwyaf o'r Ddeddf ei gweithredu yn 2016 a dechrau 2017 ac mae bellach wedi'i hymgorffori yng nghyllideb y Gyfarwyddiaeth Gynllunio.

137. Mae'r darpariaethau sy'n weddill i'w gweithredu gyda'r gost gysylltiedig i Weinidogion Cymru yn cynnwys:

- Paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF);
- Darparu cymorth ariannol i awdurdodau cynllunio lleol sydd wedi ceisio cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Strategol; a,
- Cyflwyno'r gallu ar gyfer ceisiadau cynllunio i'w gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru lle maent wedi dynodi'n ffurfiol awdurdod cynllunio lleol yn sgil ei berfformiad gwael – a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol fel “ceisiadau uniongyrchol dewisol”.

138. Mae'r costau Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cwmpasu gweithredu darpariaethau'r NDF a'r SDP. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ceisiadau uniongyrchol dewisol i Weinidogion Cymru wedi'u cynnwys, oherwydd bod hon yn gost un tro pan fydd Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei ddynodi'n ffurfiol fel un sy'n perfformio'n wael. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif bod y gost hon yn £96,000 fesul dynodiad

139. Bydd yr holl gyllid ar gyfer gweithredu Deddf Cynllunio (Cymru) yn cael ei dalu drwy gyllideb costau rhedeg presennol y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac o dan gyllideb rhaglen Cynllunio a Rheoleiddio BEL 2250.

Lesley Griffiths
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

## PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) YR AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG

**CYLLIDEB ADNODDAU**

| Camau gweithredu: | | Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | Addasiadau Gwaelodlin | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2018-19 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2018-19 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2018-19 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2019-20 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2019-20 | 2019-20 Dyraniadau / Gostyngiadau | Cyllideb Ddrafft 2019-20 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2020-21 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2020-21 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2020-21 | Cyllideb Ddrafft 2020-21 ar gyfer Cynlluniau Newydd | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol** | 2810 | Datblygu Cynaliadwy | 250 | | 250 | | | -250 | 0 | | | | 0 | | | | | Nid yw'r gyllideb yn cael ei defnyddio bellach. Gostyngiad yn y gyllideb |
| | 2812 | Deddfwriaeth a Llywodraethu'r Amgylchedd | 181 | | 181 | | | | 181 | | | | 181 | | | | | |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol** | **431** | **0** | **431** | **0** | **0** | **-250** | **181** | **0** | **0** | **0** | **181** | | | | | |
| **Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon, Twf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd** | 1270 | Rhaglen Tlodi Tanwydd | 3,412 | | 3,412 | | | | 3,412 | | | -500 | 2,912 | | | | | |
| | 2809 | Twf Gwyrdd Cymru | 1,636 | | 1,636 | | | | 1,636 | | | | 1,636 | | | | | |
| | 2816 | Gweithredu Newid yn yr Hinsawdd | 1,827 | | 1,827 | | -1,289 | | 538 | | | | 538 | | | | | Trosglwyddo'r gyllideb - ailddosbarthu cyfrifoldebau. |
| | 2817 | Atal Ymbelydredd a Llygredd | 385 | | 385 | | | | 385 | | | | 385 | | | | | |
| | 3770 | Datgarboneiddio ac Ynni **(Enw Newydd)** | 1,527 | | 1,527 | | 1,058 | | 2,585 | | | | 2,585 | | | | | Trosglwyddo o BEL 2816 - £558k ailddosbarthu cyfrifoldebau, a chyllid pwysau o £500k o'r BEL 2824 Cymorth Rheoli Amgylcheddol. |
| | 3771 | Rhaglenni Defnyddio Ynni'n Effeithlon | 1,400 | | 1,400 | | | -1,000 | 400 | | | -400 | 0 | | | | | Gostyngiad yn y Gyllideb. Gorffen y rhaglen |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon, Twf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd** | **10,187** | **0** | **10,187** | **0** | **-231** | **-1,000** | **8,956** | **0** | **0** | **-900** | **8,056** | | | | | |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth** | 2230 | Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr | 22,448 | | 22,448 | | | -58 | 22,390 | | | 2,358 | 24,748 | | | | | 1.Gwelliannau cyllid wedi'i ddiogelu ychwanegol : £0k (18/19) a £2,400k (19/20), £2,600 (20/21) a 2. £58k gostyngiad grant penodol yn 2018/19 a £42k yn 19/20 |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth** | **22,448** | **0** | **22,448** | **0** | **0** | **-58** | **22,390** | **0** | **0** | **2,358** | **24,748** | | | | | |
| **Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a chaffael gwastraff** | 2190 | Gwastraff | 72,199 | | 72,199 | -35,000 | | -3,413 | 33,786 | | | -1,727 | 32,059 | | | | | 1. £328k wedi'i ychwanegu yn ôl at waelodlin cyllideb Seilwaith Gwastraff; 2. cyllid wedi'i ddiogelu ychwanegol: £403k (18/19); £4,684k (19/20) a £937k (20/21). 3. gostyngiad yn y gyllideb o £1516k (18/19) a £3111k (19-20), a £2.8m gostyngiad grant penodol yn y ddwy flynedd. 4. Cynllun Amnewid Gwydr a Chaniau rhan o Blaid Cymru, blwyddyn yn unig (18-19) |
| | Newydd | Treth Gwarediadau Tirlenwi | | | 0 | | | 1,500 | 1,500 | | | | 1,500 | | | | | 1. £1.5m ar gyfer costau gweithredu Treth Gwarediadau Tirlenwi |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a chaffael gwastraff** | **72,199** | **0** | **72,199** | **-35,000** | **0** | **-1,913** | **35,286** | **0** | **0** | **-1,727** | **33,559** | | | | | |
| **Cyflwyno polisïau gwarchod natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol (Enw newydd)** | 2191 | Ansawdd yr Amgylchedd Lleol a Cadwch Gymru'n Daclus | 3,835 | | 3,835 | | | -114 | 3,721 | | | -82 | 3,639 | | | | | Gostyngiad grant penodol o £113.5 yn 18/19 ac £82.3 yn 19/20 |
| | 2192 | Cynnwys y Gymuned **(Enw Newydd)** | 350 | | 350 | | | -15 | 335 | | | -11 | 324 | | | | | £15.3k gostyngiad grant penodol yn 18/19 ac £11.1m yn 19/20 |
| | 2824 | Cyllid Cymorth Rheoli Amgylcheddol | 1,192 | -107 | 1,085 | | -500 | | 585 | | | | 585 | | | | | £500k i gyllido Pwysau Datgarboneiddio |
| | 2825 | Yr Amgylchedd Naturiol | 1,050 | | 1,050 | | | -13 | 1,037 | | | -10 | 1,027 | | | | | Gostwng grant penodol £13.2 yn 18/19 a £9.6 yn 19/20 i gronfeydd wrth gefn |
| | 2827 | Coedwigaeth | 214 | | 214 | | | | 214 | | | | 214 | | | | | |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Cyflawni polisïau cadwraeth natur a choedwigaeth a gwella'r amgylchedd lleol** | **6,641** | **-107** | **6,534** | **0** | **-500** | **-142** | **5,892** | **0** | **0** | **-103** | **5,789** | | | | | |
| **Noddi a rheoli cyrff cyflawni** | 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 70,120 | 2,608 | 72,728 | -1,201 | | -3,136 | 68,391 | | | -2,980 | 65,411 | | | | | 1.18-19 addasiad gwaelodlin ar gyfer I2S: £2.501m i mewn, £1.201m allan mewn ad-daliad ITS newydd; 2. Gostyngiad yn y gyllideb £3.136m (18-19) a £2.980m (19-20) |
| | | **Cyfanswm Noddi a rheoli cyrff cyflawni** | **70,120** | **2,608** | **72,728** | **-1,201** | **0** | **-3,136** | **68,391** | **0** | **0** | **-2,980** | **65,411** | | | | | |
| **Datblygu sail dystiolaeth briodol i gynorthwyo gwaith yr Adran** | 2814 | Rheoli'r Amgylchedd (Pwllperian) | 38 | | 38 | | | | 38 | | | | 38 | | | | | |
| | 2818 | Tystiolaeth a Chymorth Amgylcheddol | 776 | | 776 | | | | 776 | | | | 776 | | | | | |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu sail dystiolaeth briodol i gynorthwyo gwaith yr Adran** | **814** | **0** | **814** | **0** | **0** | **0** | **814** | **0** | **0** | **0** | **814** | | | | | |
| **Diogelu iechyd planhigion a datblygu polisïau addasu genetig** | 2821 | Gwasanaethau Iechyd Planhigion Eraill | 52 | | 52 | | | | 52 | | | | 52 | | | | | |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Diogelu iechyd planhigion a datblygu polisïau addasu genetig** | **52** | **0** | **52** | **0** | **0** | **0** | **52** | **0** | **0** | **0** | **52** | | | | | |
| **Hyrwyddo a chynorthwyo tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | 2490 | Parciau Cenedlaethol | 9,966 | | 9,966 | | | -498 | 9,468 | | | -473 | 8,995 | | | | | Gostyngiad yn y gyllideb |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Hyrwyddo a chynorthwyo tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | **9,966** | **0** | **9,966** | **0** | **0** | **-498** | **9,468** | **0** | **0** | **-473** | **8,995** | | | | | |
| **Cynllunio a Rheoleiddio** | 2250 | Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio | 5,200 | | 5,200 | | | | 5,200 | | | -200 | 5,000 | | | | | Gostyngiad yn y gyllideb |
| | | **Cyfanswm Cynllunio a Rheoleiddio** | **5,200** | **0** | **5,200** | **0** | **0** | **0** | **5,200** | **0** | **0** | **-200** | **5,000** | | | | | |
| **Datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni cyffredinol ar Amaethyddiaeth, Bwyd a Morol** | 2829 | Strategaeth Amaethyddiaeth | 20 | | 20 | | | | 20 | | | | 20 | | | | | |
| | 2831 | Cyllid Fframwaith Awdurdod Lleol | 600 | | 600 | | | | 600 | | | | 600 | | | | | Gostyngiad yn y gyllideb |
| | 2860 | Ymgysylltu â Chwsmeriaid Amaethyddiaeth | 400 | | 400 | | | | 400 | | | | 400 | | | | | |
| | 2861 | Prosiect Daliadau Plwyf Sirol | 1,400 | | 1,400 | | | -471 | 929 | | | -429 | 500 | | | | | Gostyngiad yn y Gyllideb |
| | 2862 | EID Cymru | 421 | | 421 | | | | 421 | | | | 421 | | | | | |
| | 2863 | Adnabod Da Byw | 1,647 | | 1,647 | | | | 1,647 | | | | 1,647 | | | | | |
| | 2864 | Gwasanaethau Cyngor Technegol | 1,775 | | 1,775 | | | | 1,775 | | | | 1,775 | | | | | GMEP |
| | Newydd | Newydd-ddyfodiaid Ffermio | 0 | | 0 | | | 2,000 | 2,000 | | | 2,000 | 4,000 | | | | | Grantiau Ffermwyr Ifanc - Setliad Cyllideb Plaid Cymru |
| | 2865 | Gweithredu Deddfwriaeth a Pholisi | 183 | | 183 | | | | 183 | | | | 183 | | | | | |
| | 2866 | Deddf Tiroedd Comin | 433 | | 433 | | | | 433 | | | | 433 | | | | | |
| | 2838 | Cyflawni Arloesedd | 0 | | 0 | | 731 | | 731 | | | | 731 | | | | | Trosglwyddo o BEL 2816 - ailddosbarthu cyfrifoldebau |
| | | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni cyffredinol ar Amaethyddiaeth, Bwyd a Morol** | **6,879** | **0** | **6,879** | **0** | **731** | **1,529** | **9,139** | **0** | **0** | **1,571** | **10,710** | | | | | |
| **Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a LICC** | 2787 | Amaethyddiaeth Taliadau Uniongyrchol Colofn 1 UE | 200,000 | | 200,000 | 20,000 | | | 220,000 | | | | 220,000 | | | | | Cyllidir gan Ewrop 100%; yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf a gwariant blaenorol. |
| | 2787 | Amaethyddiaeth Taliadau Uniongyrchol Colofn 1 - Incwm | -200,000 | | -200,000 | -20,000 | | | -220,000 | | | | -220,000 | | | | | |
| | 2790 | Gweinyddu Cynllun y Taliad Sengl | 9,666 | | 9,666 | | | | 9,666 | | | | 9,666 | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm ar gyfer Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a LIC | | **9,666** | **0** | **9,666** | **0** | **0** | **0** | **9,666** | **0** | **0** | **0** | **9,666** | | | | | |
| **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Cyflwyno'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-20** | 2880 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 Cyfalaf Dynol a Chymdeithasol | 6,926 | | 6,926 | | | | 6,926 | | | | 6,926 | | | | | |
| | 2882 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 Amaeth-amgylchedd a Hinsawdd Glastir | 15,806 | | 15,806 | | | | 15,806 | | | -2,500 | 13,306 | | | | | |
| | 2883 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 Amaeth-amgylched a Hinsawdd Glastir | 851 | | 851 | | | | 851 | | | | 851 | | | | | |
| | 2885 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 Cymorth Technegol | 3,583 | | 3,583 | | -500 | -222 | 2,861 | | | -538 | 2,323 | | | | | Gostyngiad yn y gyllideb £222k a £538k, ac ailddyrannu £500k i Forol a Physgodfeydd |
| | 2949 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 3,213 | | 3,213 | | | | 3,213 | | | -3,067 | 146 | | | | | Gostyngiad yn y gyllideb |
| | **Cyfanswm ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Cyflwyno'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-20** | | **30,379** | **0** | **30,379** | **0** | **-500** | **-222** | **29,657** | **0** | **0** | **-6,105** | **23,552** | | | | | |
| **Datblygu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig** | 2240 | Ymchwilio a Gwerthuso | 520 | | 520 | | | | 520 | | | | 520 | | | | | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig** | | **520** | **0** | **520** | **0** | **0** | **0** | **520** | **0** | **0** | **0** | **520** | | | | | |
| **Datblygu a rheoli Morol Cymru, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru** | 2830 | Cynlluniau Pysgodfeydd a Gyllidir gan yr UE | 565 | | 565 | | | | 565 | | | | 565 | | | | | |
| | 2870 | Morol a Physgodfeydd | 1,756 | | 1,756 | | 500 | | 2,256 | | | | 2,256 | | | | | £500k o Gyllid Pwysau gan y Cynllun Datblygu Gwledig |
| | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a rheoli Morol Cymru, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru** | | **2,321** | **0** | **2,321** | **0** | **500** | **0** | **2,821** | **0** | **0** | **0** | **2,821** | | | | | |
| **Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru** | 2970 | Hybu Bwyd Cymreig a Datblygu'r Diwydiant | 4,700 | | 4,700 | | | | 4,700 | | | | 4,700 | | | | | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a Marchnata Bwyd a Diod Cymru** | | **4,700** | **0** | **4,700** | **0** | **0** | **0** | **4,700** | **0** | **0** | **0** | **4,700** | | | | | |
| **Cefnogi a Datblygu'r rhaglen / strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid** | 2270 | Iechyd a Lles Anifeiliaid | 550 | | 550 | | | | 550 | | | | 550 | | | | | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Cefnogi a Chyflawni'r Rhaglen/ Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid** | | **550** | **0** | **550** | **0** | **0** | **0** | **550** | **0** | **0** | **0** | **550** | | | | | |
| **Rheoli a chyflawni Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill** | 2269 | Incwm TB yr UE | -2,800 | | -2,800 | | | | -2,800 | | | | -2,800 | | | | | |
| | 2271 | Taliad Cyflawni Iechyd a Lles Anifeiliaid | 15,281 | | 15,281 | | | | 15,281 | | | | 15,281 | | | | | |
| | 2272 | Costau a Derbyniadau Taliadau Lladd TB | 9,360 | | 9,360 | | | | 9,360 | | | | 9,360 | | | | | |
| | 2273 | Dileu TB | 7,510 | | 7,510 | | | | 7,510 | | | | 7,510 | | | | | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Rheoli a chyflawni Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill** | | **29,351** | **0** | **29,351** | **0** | **0** | **0** | **29,351** | **0** | **0** | **0** | **29,351** | | | | | |
| **AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM CYLLIDEB ADNODDAU** | | | **282,424** | **2,501** | **284,925** | **-36,201** | **0** | **-5,690** | **243,034** | **0** | **0** | **-8,559** | **234,475** | | | | | |

**CYLLIDEB CYFALAF**

| Camau gweithredu: | | Disgrifiad BEL | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | | | Cynlluniau 2018-19 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2018-19 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cyllideb ddrafft 2019-20 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2019-20 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2019-20 | 2019-20 Dyraniadau / Gostyngiadau | Cyllideb Ddrafft 2019-20 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18 | Trosglwyddiadau O fewn y MEG 2020-21 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2020-21 | Cyllideb Ddrafft 2020-21 ar gyfer Cynlluniau Newydd | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu a gweithredu polisi newid hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon, Twf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd** | 1270 | Rhaglen Tlodi Tanwydd | 29,000 | | | 28,180 | -1,180 | | 27,000 | 27,000 | | | 27,000 | 23,000 | | | 23,000 | FT: 18-19 - £1.18m i symud i dwf Gwyrdd; |
| | 2808 | Seilwaith Gwyrdd | 3,612 | | | 3,205 | | | 3,205 | 3,289 | | | 3,289 | 7,975 | | | 7,975 | |
| | 2809 | Twf Gwyrdd Cymru | 7,000 | | | 7,000 | 1,180 | | 8,180 | 2,000 | | | 2,000 | 4,000 | | | 4,000 | FT: 18-19 - £5m; 20-21 - £2m, ac £1.18m FT o Dlodi Tanwydd |
| | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a gweithredu polisi newid hinsawdd, defnyddio ynni'n effeithlon, Twf Gwyrdd a diogelu'r amgylchedd** | | **39,612** | | | **38,385** | **0** | **0** | **38,385** | **32,289** | **0** | **0** | **32,289** | **34,975** | **0** | **0** | **34,975** | |
| **Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth** | 2230 | Refeniw Rheoli Perygl Llifogydd a Dŵr | 32,000 | | | 27,000 | | 7,500 | 34,500 | 27,000 | | | 27,000 | 28,000 | | | 28,000 | Dyraniad cyfalaf ychwanegol |
| | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth perygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthffosiaeth** | | **32,000** | | | **27,000** | **0** | **7,500** | **34,500** | **27,000** | **0** | **0** | **27,000** | **28,000** | **0** | **0** | **28,000** | |
| **Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a chaffael gwastraff** | 2190 | Gwastraff | 4,000 | | | 4,000 | | | 4,000 | 10,500 | | | 10,500 | 4,000 | | | 4,000 | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a chaffael gwastraff** | | **4,000** | | | **4,000** | **0** | **0** | **4,000** | **10,500** | **0** | **0** | **10,500** | **4,000** | **0** | **0** | **4,000** | |
| **Noddi a rheoli cyrff cyflawni** | 2451 | Cyfoeth Naturiol Cymru | 3,654 | | | 1,695 | | 1,559 | 3,254 | 1,695 | | 959 | 2,654 | 1,695 | | | 1,695 | Dyraniad cyfalaf ychwanegol |
| | **Noddi a rheoli cyrff cyflawni** | | **3,654** | | | **1,695** | **0** | **1,559** | **3,254** | **1,695** | **0** | **959** | **2,654** | **1,695** | **0** | **0** | **1,695** | |
| **Hyrwyddo a chynorthwyo tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | 2490 | Parciau Cenedlaethol | 1,000 | | | 500 | -500 | | 0 | 300 | -300 | | 0 | 300 | -300 | | 0 | Ailddyrannu'r Gyllideb Cyfalaf i'r Ddeddf Tiroedd Comin, nid yw'n ofynnol mewn Parciau Cenedlaethol |
| | **Cyfanswm ar gyfer Hyrwyddo a chynorthwyo tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd** | | **1,000** | | | **500** | **-500** | **0** | **0** | **300** | **-300** | **0** | **0** | **300** | **-300** | **0** | **0** | |
| **Datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni cyffredinol ar Amaethyddiaeth, Bwyd a Morol** | 2861 | Prosiect Daliadau Plwyf Sirol | 570 | | | 0 | | | 0 | 0 | | | 0 | 0 | | | 0 | |
| | 2862 | EID Cymru | 320 | | | 321 | | 674 | 995 | 120 | | 947 | 1,067 | 0 | | | 0 | Dyraniad cyfalaf ychwanegol |
| | 2866 | Deddf Tiroedd Comin | 1,100 | | | 0 | 500 | | 500 | 0 | 300 | | 300 | 0 | 300 | | 300 | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Datblygu a chyflawni polisi a rhaglenni cyffredinol ar Amaethyddiaeth, Bwyd a Morol** | | **1,990** | | | **321** | **500** | **674** | **1,495** | **120** | **300** | **947** | **1,367** | **0** | **300** | **0** | **300** | |
| **Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a LIC** | 2789 | Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin | 1,574 | | | 0 | | 3,000 | 3,000 | 0 | | 2,000 | 2,000 | 0 | | | 0 | Dyraniad cyfalaf ychwanegol |
| | **Cyfanswm ar gyfer Gweinyddu'r PAC a gwneud taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru** | | **1,574** | | | **0** | **0** | **3,000** | **3,000** | **0** | **0** | **2,000** | **2,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | |
| **Cyflwyno'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-20** | 2949 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 8,166 | | | 8,149 | | 1,660 | 9,809 | 4,400 | | 2,121 | 6,521 | 3,675 | | 1,643 | 5,318 | Dyraniad cyfalaf ychwanegol |
| | 2886 | Cynllun Datblygu Gwledig 2014-20 Grant Busnes i Ffermydd | 5,000 | | | 5,000 | | | 5,000 | 5,000 | | | 5,000 | 5,000 | | | 5,000 | |
| | **Cyfanswm ar gyfer Cyflwyno'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-20** | | **13,166** | | | **13,149** | **0** | **1,660** | **14,809** | **9,400** | **0** | **2,121** | **11,521** | **8,675** | **0** | **1,643** | **10,318** | |
| **Datblygu a rheoli Morol Cymru, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru** | 2830 | Cynlluniau Pysgodfeydd a Gyllid gan yr UE | 235 | | | 391 | | | 391 | 450 | | | 450 | 233 | | | 233 | |
| | 2870 | Morol a Physgodfeydd | 4,500 | | | 800 | | | 800 | 0 | | | 0 | 0 | | | 0 | |
| | **Cyfanswm Datblygu a rheoli Morol Cymru, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynnwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru** | | **4,735** | | | **1,191** | **0** | **0** | **1,191** | **450** | **0** | **0** | **450** | **233** | **0** | **0** | **233** | |

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM Y GYLLIDEB CYFALAF** | **101,731** | | | **86,241** | **0** | **14,393** | **100,634** | **81,754** | **0** | **6,027** | **87,781** | **77,878** | **0** | **1,643** | **79,521** | |

**CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a Reolir yn Flynyddol**

| Camau gweithredu: | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | Addasiadau Gwaelodlin | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2018-19 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2018-19 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2018-19 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2018-19 | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2018-19 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 | Trosglwyddiad 2020-21au MEG i MEG | Trosglwyddiadau O fewn MEG 2020-21 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2020-21 | 2020-21 Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft | DISGRIFIAD |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Noddi a rheoli cyrff cyflawni** | 2452 | Darpariaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Pensiynau - Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 2,400 | | | | | | 2,400 | | | | 2,400 | | | | | Rhagolwg Gwariant a Reolir yn Flynyddol fel yr adroddwyd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ym mis Medi 2017 |
| | **Cyfanswm ar gyfer Noddi a rheoli cyrff cyflawni** | | **2,400** | | | | | **0** | **2,400** | | | **0** | **2,400** | | | | | |
| **AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM ADNODDAU CYLLIDEB GWARIANT A REOLIR YN FLYNYDDOL** | | | **2,400** | | | | | **0** | **2,400** | | | **0** | **2,400** | | | | | |

| YR AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG - CRYNODEB | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | Addasiadau Gwaelodlin | Gwaelodlin Diwygiedig 2017-18 | Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gwreiddiol 2018-19 | Newidiadau 2018-19 | Cyllideb Ddrafft 2018-19 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gwreiddiol 2019-20 | Newidiadau 2019-20 | Cyllideb Ddrafft 2019-20 ar gyfer Cynlluniau Newydd | Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gwreiddiol 2020-21 | Newidiadau 2020-21 | Cyllideb Ddrafft 2020-21 ar gyfer Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | |
| Adnodd | 282,424 | 2,501 | 284,925 | 284,925 | -41,891 | 243,034 | 243,034 | -8,559 | 234,475 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfalaf (Dim Gwaelodlin Cyfalaf) | 101,731 | 0 | 101,731 | 86,241 | 14,393 | 100,634 | 81,754 | 6,027 | 87,781 | 77,878 | 1,643 | 79,521 |
| **Cyfanswm ar gyfer Adnoddau a Chyfalaf** | **384,155** | **2,501** | **386,656** | **371,166** | **-27,498** | **343,668** | **324,788** | **-2,532** | **322,256** | **77,878** | **1,643** | **79,521** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm AME** | **2,400** | **0** | **2,400** | **2,400** | **0** | **2,400** | **2,400** | **0** | **2,400** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG - CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **386,555** | **2,501** | **389,056** | **373,566** | **-27,498** | **346,068** | **327,188** | **-2,532** | **324,656** | **77,878** | **1,643** | **79,521** |